

# Sul Cymorth Cristnogol

## Darlleniad: Eseia 1: 2-20

---

---

‘...yn gymaint i chwi ei wneud i un o’r lleiaf o’r rhain,  
fy mrodyr, i mi y gwnaethoch.’

‘Rho imi nerth i wneud fy rhan  
I gario baich fy mrawd;  
I weini’n dirion ar y gwan,  
A chynorthwyo’r tlawd.’

Arglwydd, mae’n byd yn llawn annhegwch ac anghyfiawnder, ac mi fydd miloedd yr wythnos hon, fel pob wythnos arall o’r flwyddyn, yn dioddef o ganlyniad i hynny - trwy erledigaeth a gormes, newyn a thlodi.

Cofia am ein byd, a llwydda bob ymdrech i unioni’r balans rhwng y rhai sydd â digon a’r rhai sydd heb ddim. Diolch i ti am fudiad Cymorth Cristnogol mewn gwlad o ddigonedd, a’i nod i ddiwallu’r angen sydd yn y byd, a hynny nid yn unig drwy rannu nawdd a maeth i drigolion y Trydydd Byd, ond trwy eu hyfforddi a’u cynorthwyo i dyfu eu cynnyrch eu hunain.

Diolch i ti am y bartneriaeth sy’n hybu’r cydweithio hwn; a diolch am ddiogelu urddas y bobl trwy eu hyfforddi i’w helpu eu hunain wrth amaethu a chynhyrchu ac adeiladu. Cynorthwya ni i’n gweld ein hunain, Arglwydd, yn rhan o’r bartneriaeth hon:

‘Ehanga ’mryd, a gwared fi  
Rhag culni o bob rhyw;  
Rho imi weld pob mab i ti  
Yn frawd i mi, O! Dduw.’

Rho inni’r awydd i gynorthwyo’n cyd-ddyn anghenus yn ei ddyhead am fara beunyddiol, am loches a dillad ac am yr hawl i

fyw ei fywyd yn ddidramgwydd. Boed i'n cefnogaeth ni fod yn deilwng ohonom fel disgyblion i ti. Diolchwn i ti am ein cymell i gynnig mwy na bara beunyddiol yn unig, a helpa ni i estyn ein rhoddion mewn cariad ac yn enw'r Crist a ddywedodd nad 'ar fara yn unig y bydd byw dyn, ond ar bob gair a ddaw o enau Duw'. Cynorthwya ni i gynnig ymhellach, drwy ein hymroddiad, a'n hymateb i anghenion eraill.

Diolchwn i ti am bob gweithgarwch lleol, am giniawau bara a chaws, am siopau elusen ac am gasgliadau drws-i-ddrws sy'n hybu gwaith y mudiad. Diolchwn am y rhai sy'n rhannu'r nawdd ac yn estyn y cymorth. Bendithia'r gwaith a llwydda bob ymdrech, a boed inni weld ein rhoi a'n gwneud yn fodd i'th ogoneddu di ac i ddwyn mawrhad i'th enw.

‘Gad imi weld dy wyneb-pryd  
Yng ngwedd y llesg a'r gwael;  
A gwrando'r gŵyn nas clyw y byd,  
Er mwyn dy gariad hael.’

‘Yn gymaint â'i wneuthur i un o'r rhai hyn ... i mi y gwnaethoch.’  
Amen.

*Peter Thomas*